BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CYSUR A CWMPAS

THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

CYNLLUN BLYNYDDOL | ANNUAL PLAN

## *2026–2027*

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
University Health Board

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
National Probation Service

Heddlu•Police DYFED-POWYS

Powys

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**CYFLWYNIAD**

Mae CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru a CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn falch o gyhoeddi a chyflwyno ei gynllun strategol blynyddol ar y cyd ar gyfer 2026–2027.

Rydym wedi mabwysiadu dull newydd o ddatblygu ein cynllun blynyddol eleni, yn seiliedig ar awydd ar y cyd i ganolbwyntio ar y meysydd thematig mwyaf amlwg yn y rhanbarth, a sut y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i blant ac oedolion sydd mewn perygl yn ein cymunedau. Rydym yn parhau i elwa o fwrdd sy'n cynnwys partneriaid ymgysylltiedig a chefnogol, sy'n darparu lefel anfesuradwy o ragweithgarwch a chefnogaeth i'n hagenda strategol. Yn ein barn ni, mae hyn yn ffynhonnell o gryfder gwirioneddol, y gallwn ei defnyddio i symud ymlaen â'r ystod o ffrydiau gwaith sy'n ffurfio ein cynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Nid yw'r ystod eang o ffrydiau gwaith sy'n ffurfio busnes cyffredinol y bwrdd wedi'u rhestru yn y cynllun blynyddol eleni. Rydym wedi mabwysiadu'r dull hwn i ganiatáu i'n cynllun adlewyrchu'r ymrwymiadau ychwanegol y gwnaethom y tu hwnt i'n swyddogaethau craidd, a'n rhaglenni gwaith presennol, ac felly i hwyluso goruchwyliaeth fwy manwl sy'n canolbwyntio mwy ar ein cyflawniad yn erbyn y cynllun drwy gydol y flwyddyn. Felly, ni fydd y cynllun hwn yn amlinellu'r ystod eang o waith y mae'r bwrdd hwn yn parhau i'w wneud i gyflawni ei swyddogaethau craidd, ac i ddatblygu ein harfer yn barhaus i gynorthwyo cymunedau ac ymarferwyr yn well ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Fodd bynnag, darperir manylion llawn am sbectrwm gwaith cyffredinol y bwrdd yn flynyddol trwy ein hadroddiadau blynyddol.

Eleni, rydym hefyd wedi nodi blaenoriaethau strategol newydd sy'n llywio ein cynllun blynyddol. O fewn y blaenoriaethau newydd hyn, mae mwy o ffocws ar sut y gallwn gasglu a deall lleisiau plant ac oedolion sydd mewn perygl yn well er mwyn llywio ein harfer, sy'n cynnwys treialu'r model ymarfer Newid Mwyaf Sylweddol mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Penfro. Mae sicrhau ansawdd a gwerthuso hefyd yn rhan amlwg o'r cynllun eleni, er mwyn cefnogi dadansoddiad cyfoethocach o dueddiadau rhanbarthol, ac felly rhaglenni gwaith mwy gwybodus.

Mae ein cynllun blynyddol yn adlewyrchu dysgu cenedlaethol thematig mewn perthynas â meysydd allweddol megis ymarfer mewn perthynas ag Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru (honiadau / pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi cyfrifol). Mae rhannu gwybodaeth hefyd yn rhan o'r cynllun eleni, wrth i ni barhau i ddatblygu prosiect LINC Diogelu, sy'n defnyddio datblygiadau mewn technoleg i ddatblygu platfform rhithwir ar gyfer gweithwyr proffesiynol diogelu sy'n cynnal gwybodaeth amlasiantaethol mewn un lle hygyrch a diogel. Edrychwn ymlaen at dreialu a gwerthuso'r prosiect hwn yn y flwyddyn nesaf, fel man cychwyn ar gyfer ehangu'r prosiect yn y cam nesaf o'i weithredu.

Yn ogystal, mae'r bwrdd yn falch o gael arwain yn barhaus ar gyflawni fframwaith dysgu a datblygu'r adolygiad diogelu unedig sengl ar ran Llywodraeth Cymru, trwy adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma gyda hyfforddiant ychwanegol i gynorthwyo datblygiad proffesiynol parhaus cadeiryddion ac adolygwyr, yn ogystal â chynnal ymwybyddiaeth sefydliadol a gweithrediad yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn genedlaethol.

Rydym yn dechrau'r flwyddyn newydd hon gyda diolchgarwch diffuant am y cyfraniad sylweddol y mae ein partneriaid yn parhau i'w wneud i'n partneriaeth. Rydym yn hyderus y bydd y sylfaen gadarn hon yn ffynhonnell o gryfder wrth i ni symud ymlaen i gyflawni ein hamcanion strategol gyda'n gilydd.





**Audrey Somerton-Edwards**
**(Cadeirydd CYSUR)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyngor Sir Ceredigion





**Michael Gray**
**(Cadeirydd CWMPAS)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro

**EIN GWELEDIGAETH**

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw bod pawb yn y rhanbarth yn byw eu bywydau yn rhydd rhag trais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio, a bod eu hawliau'n cael eu gwarchod. Mae'r holl waith diogelu yn sensitif i barch, ac wedi'i wreiddio'n gadarn mewn parch tuag at wahaniaethau o ran hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ymgysylltu a bod yn ymatebol i anghenion pob rhanddeiliad, gan gynnwys plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau, a'r gymuned ehangach, yn hanfodol i hyrwyddo gweledigaeth y bwrdd.

| Aelodau Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | |
|---|---|
| **CWMPAS (Bwrdd Gweithredol Diogelu Oedolion)** | **CYSUR (Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant)** |
| **Michael Gray (Cadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd,<br>Cyngor Sir Penfro | **Audrey Somerton-Edwards (Cadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Ceredigion |
| **Gwag (Is-gadeirydd)** | **Gwag (Is-gadeirydd)** |
| **Audrey Somerton-Edwards**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Ceredigion | **Michael Gray**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd,<br>Cyngor Sir Penfro |
| **Darren Mutter**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin | **Darren Mutter**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Nina Davies**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Powys | **Nina Davies**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Powys |
| **Sharon Daniel**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Sharon Daniel**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Claire Roche**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Claire Roche**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Nadine Gould**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Nadine Gould**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Ross Evans**<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro,<br>Heddlu Dyfed-Powys | **Ross Evans**<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro,<br>Heddlu Dyfed-Powys |
| **Llyr Williams**<br>Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro,<br>Heddlu Dyfed-Powys | **Llyr Williams**<br>Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro,<br>Heddlu Dyfed-Powys |
| **Kate Burton**<br>Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin | **Gill Adams**<br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Donna Pritchard** | **Donna Pritchard** |

| | |
|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion |
| **Mel Laidler**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Penfro | **Chris Frey-Davies**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro |
| **Sharon Frewin**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys | **Sharon Powell**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys |
| **Liz Bowen**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | **Liz Bowen**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Charlotte Westacott**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs benodol),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Charlotte Westacott**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs benodol),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Jayne Wheeler-Sexton**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs benodol),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Jayne Wheeler-Sexton**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs benodol),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Debbie Pachu**<br>Nyrs Ddynodedig, Y Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | **Debbie Pachu**<br>Nyrs Ddynodedig, Y Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Chris Harrison**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Penaethiaid Comisiynu | **Gill Adams**<br>Cynrychiolydd Rhanbarthol Dros Dro Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid |
| **Dafydd Llywelyn**<br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys | **Uwch-swyddogion Addysg Rhanbarthol**<br>Sir Gaerfyrddin – Vicky Jeremy<br>Ceredigion – Elen James<br>Sir Benfro – Steven Richards-Downes<br>Powys – Judith Hickey |
| | **Dr Ingrid Prosser**<br>Meddyg penodol, Amddiffyn Plant,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| | **Dr Faumy Hassan**<br>Meddyg penodol, Amddiffyn Plant,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| Uned Fusnes Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru |
|---|
| **Julie Breckon**<br>Rheolwr Diogelu Rhanbarthol Strategol ar gyfer Plant ac Oedolion mewn Perygl |
| **Rebecca Reynolds**<br>Rheolwr Busnes Adolygu Ymarfer |
| **Stanislava Kovacinova**<br>Swyddog Datblygu Busnes |

**Stuart Hicks**
Swyddog Datblygu Busnes

## SUT RYDYM WEDI DATBLYGU EIN CYNLLUN BLYNYDDOL

Bob blwyddyn mae'r bwrdd yn cynnal diwrnod datblygu, lle rydym yn adolygu ein cyflawniad ar y cyd yn erbyn cynllun blynyddol y flwyddyn flaenorol, ac yn myfyrio gyda'n gilydd ar y blaenoriaethau strategol cyffredinol a'r ffrydiau gwaith penodol yr ydym am fwrw ymlaen â nhw i'r flwyddyn nesaf.

Eleni, dewisodd y bwrdd fabwysiadu dull newydd o ddatblygu ei gynllun blynyddol. Y canlyniad yw cynllun newydd sydd wedi ei fireinio'n fwy na'r fersiynau blaenorol, gyda chamau gweithredu sy'n llai o ran nifer ond sydd eu hunain yn fwy targedig ac uchelgeisiol. Dyma'r meysydd lle roeddem yn teimlo y gallem ni wneud y gwahaniaeth mwyaf i'n cymunedau yn y flwyddyn nesaf, a bydd y cynllun blynyddol cryno, ffocws-ganolog hwn yn ein cynorthwyo i weithredu ein camau gweithredu cytunedig gyda'r dyfnder a'r ffocws a fydd yn caniatáu i'n canlyniadau gael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol.

O ganlyniad i'n dull diwygiedig, nid ydym, fel yr ydym wedi'i wneud mewn cynlluniau blynyddol blaenorol, wedi cynnwys unrhyw ffrydiau gwaith yn y cynllun hwn sydd eisoes yn rhan o fusnes a swyddogaethau'r bwrdd, yn debyg i'n cyfrifoldebau, fel yr amlinellir yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r meysydd gwaith hyn wedi'u hymgorffori yn llywodraethiant a rhaglen flynyddol y bwrdd, ac ar draws agendâu a chynlluniau gwaith ledled strwythur ein bwrdd. Darperir trosolwg byr o rai o'r meysydd hyn isod, a gellir dod o hyd i fanylion llawn am swyddogaethau a gweithgareddau cyfunol y bwrdd yn ein hadroddiadau blynyddol.

- Cyfarfodydd y bwrdd gweithredol: Mae'r bwrdd gweithredol yn cyfarfod bob chwarter ac yn mynd i'r afael ag ystod eang o fusnes yn y cyfarfodydd strategol hyn, sy'n cynnwys dadansoddi data perfformiad rhanbarthol, goruchwylio holl is-grwpiau a ffrydiau gwaith y bwrdd, cyflwyniadau a thrafodaethau ar feysydd blaenoriaeth rhanbarthol a chenedlaethol, ac adolygiadau o gynnydd yn erbyn gweithredu ein cynlluniau blynyddol.

- Adolygiadau diogelu unedig sengl: Rydym yn ymgymryd ag adolygiadau diogelu unedig sengl lle mae unigolyn wedi marw neu wedi profi niwed sy'n dod o dan un neu ragor o feini prawf ar gyfer adolygiadau diogelu unedig sengl o dan ganllawiau statudol. Mae'r bwrdd yn rheoli ac yn goruchwylio pob adolygiad diogelu unedig sengl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae ganddo fodel a phecyn cymorth rhanbarthol i gefnogi hyn.

- Fforymau proffesiynol amlasiantaethol: Mae gennym fframwaith rhanbarthol i gefnogi asiantaethau i gynnull fforymau proffesiynol amlasiantaethol ar gyfer achosion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad diogelu unedig sengl, ond y teimlir bod dysgu amlasiantaethol ohonynt. Rydym yn cefnogi fforymau proffesiynol amlasiantaethol ledled y rhanbarth gan ddefnyddio pecynnau cymorth a dulliau ymarfer a ddatblygwyd o arfer gorau.

- Hyfforddiant: Mae ein his-grŵp hyfforddi rhanbarthol yn cefnogi ac yn datblygu hyfforddiant diogelu amlasiantaeth newydd i gynorthwyo ymarferwyr ledled y rhanbarth.

- Polisïau a gweithdrefnau: Mae'r is-grŵp polisïau a gweithdrefnau yn cynnal ac yn adolygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau rhanbarthol eraill presennol mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ac yn datblygu dogfennaeth newydd yn unol â blaenoriaethau rhanbarthol a meysydd thematig.

- Cyfarfodydd arweinwyr diogelu: Cynhelir y cyfarfodydd amlasiantaeth hyn yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac maent yn cynnwys uwch-reolwyr ar draws gofal cymdeithasol plant ac oedolion, yn ogystal ag uwch-swyddogion o'r Adran Iechyd a Heddlu Dyfed-Powys, i ystyried

a datblygu darnau o waith pwrpasol ochr yn ochr â chyfarfodydd craidd, ac i archwilio meysydd arfer diogelu o ddiddordeb cyffredin ar draws asiantaethau.

- Grwpiau gorchwyl a gorffen: Yn ogystal â'r swyddogaethau a'r grwpiau craidd hyn, mae nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen pwrpasol yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn i ddatblygu prosiectau a gweithgareddau'r bwrdd. Yn y flwyddyn nesaf, bydd hyn yn cynnwys datblygu strategaeth camfanteisio ranbarthol newydd i bob oed, a grwpiau hyfforddiant i gynllunio a chyflwyno hyfforddiant amlasiantaeth rhanbarthol pwrpasol, ochr yn ochr â gwaith i gynllunio a chyflwyno amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau a gynhelir bob blwyddyn fel rhan o'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol.

Fel y gwelir, mae gan y bwrdd set gynhwysfawr, gyffredinol o ffrydiau gwaith a busnes sy'n dod o fewn ei ystod eang o swyddogaethau statudol. Er y gellir dod o hyd i fanylion pellach am y gwaith a wnaed gan ein bwrdd yn ein hadroddiadau blynyddol, dim ond y meysydd gwaith newydd hynny y mae partneriaid wedi ymrwymo iddynt eleni, yn ychwanegol at ein busnes bwrdd sefydlog a pharhaus, sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r cynllun blynyddol ar gyfer 2026–2027 wedi'i nodi yn y tudalennau canlynol.

## CANLYNIADAU BLAENORIAETH STRATEGOL A NODWYD AR GYFER 2025–2026

**1. Dysgu thematig cenedlaethol a rhanbarthol:** Cryfhau a chydgrynhoi meysydd allweddol o ddysgu, a themâu cenedlaethol a rhanbarthol yng ngwaith a blaenoriaethau'r bwrdd.

**2. Sicrhau ansawdd a data:** Ymgymryd â gwerthusiad a dadansoddiad data cyfoethocach a mwy ansoddol i hwyluso rhaglenni a ffrydiau gwaith y bwrdd sy'n seiliedig ar wybodaeth.

**3. Cyfranogiad a lleisiau'r rhai sydd â phrofiad bywyd:** Cryfhau ymgysylltiad â phlant, oedolion sydd mewn perygl, a chymunedau, a sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau bywyd yn llywio ymarfer a blaenoriaethau yn uniongyrchol.

**4. Cryfhau ymgysylltiad â chymunedau (gan gynnwys grwpiau a sefydliadau ynysig ac anodd eu cyrraedd):** Grymuso cymunedau drwy hwyluso datblygiad a hygyrchedd adnoddau a chanllawiau mewn perthynas â diogelu a llesiant.

Mae sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau hyn, a'r crynodeb o'r gwelliannau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion, wedi'u rhestru yn ein cynllun busnes isod.

| 1. Dysgu thematig cenedlaethol a rhanbarthol: Cryfhau a chydgrynhoi meysydd allweddol o ddysgu a themâu cenedlaethol a rhanbarthol yng ngwaith a blaenoriaethau'r bwrdd. | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Beth ydym am ei gyflawni?** | **Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r cam gweithredu hwn?** |
| **1.1 Strwythur a ffocws y bwrdd gweithredol** | Hyrwyddo ymhellach flaenoriaethau strategol a meysydd ffocws thematig y bwrdd o fewn agendâu'r bwrdd gweithredol. | Bydd meysydd gwaith o fewn y cynllun blynyddol, ynghyd â meysydd thematig allweddol, yn cael lle mwy amlwg yn agenda'r bwrdd. |
| | | Bydd mwy o oruchwyliaeth o gynnydd yn erbyn y cynllun blynyddol yn cael ei chyflawni ar lefel y bwrdd gweithredol. |
| | Cryfhau agendâu'r bwrdd gweithredol i hwyluso goruchwyliaeth ac ymwybyddiaeth gryfach o aelodaeth a chynrychiolaeth asiantaethau ar lefel strategol. | Bydd cynrychiolaeth strategol ar draws asiantaethau yn eitem sefydlog ar yr agenda, er mwyn sicrhau bod y gynrychiolaeth ofynnol ar waith mewn perthynas ag eitemau o fewn agenda'r bwrdd. |
| **1.2 Rhannu gwybodaeth** | Treialu a gwerthuso prosiect LINC Diogelu. | Bydd gweithrediad y prosiect yn seiliedig ar ganlyniadau'r cynllun peilot a'r gwerthusiad. |
| | Ehangu prosiect LINC Diogelu i gynnwys oedolion sydd mewn perygl. | Bydd gwybodaeth mewn perthynas ag oedolion sydd mewn perygl yn cael ei hychwanegu at y platfform, a bydd ymarferwyr diogelu oedolion yn cymryd rhan yng ngham nesaf y prosiect. |
| **1.3 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 5 – Honiadau / pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi cyfrifol** | Ochr yn ochr â ffrydiau gwaith cenedlaethol, hyrwyddo a chefnogi hyfforddiant ac ymarfer mewn perthynas â phrosesau Adran 5. | Bydd mwy o gysondeb o ran arfer mewn perthynas ag Adran 5 yn amlwg ar draws y rhanbarth. |

| | | |
|---|---|---|
| **1.4 Ymarfer a hyfforddiant diogelu oedolion** | Ymgorffori'r gwaith datblygu a wnaed gan yr arweinwyr diogelu oedolion yn 2025–2026 yn y gwaith o sefydlu canllaw ymarfer atodol rhanbarthol, i lywio gwaith rhanbarthol a chenedlaethol yn y maes hwn. | Bydd y canllaw ymarfer yn llywio diweddariadau a gwelliannau i Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer oedolion sydd mewn perygl. |
| | Defnyddio'r canllaw ymarfer a amlinellwyd uchod i ddatblygu hyfforddiant, a chanllawiau amlasiantaeth mewn perthynas â diogelu oedolion. | Bydd mwy o gydraddoldeb yn cael ei gyflawni rhwng diogelu plant ac oedolion o fewn y fframwaith hyfforddiant amlasiantaeth. |

| **2. Sicrhau ansawdd a data: Ymgymryd â gwerthusiad a dadansoddiad data cyfoethocach a mwy ansoddol i hwyluso rhaglenni a ffrydiau gwaith y bwrdd, sy'n seiliedig ar wybodaeth.** | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Beth ydym am ei gyflawni?** | **Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r cam gweithredu hwn?** |
| **2.1 Datblygu a diweddaru fframwaith sicrhau ansawdd rhanbarthol** | Datblygu model gwerthuso ansoddol i werthuso effeithiolrwydd hyfforddiant diogelu amlasiantaeth, a'i effaith ar ymarfer proffesiynol. | Bydd data gwerthuso ansoddol ar gael mewn perthynas â hyfforddiant diogelu amlasiantaeth, a fydd yn llywio adolygiad a chyflwyno pecynnau yn uniongyrchol. |
| | Fel rhan o'r fframwaith sicrhau ansawdd rhanbarthol, datblygu model a phroses ar gyfer cynnal adolygiad gan gymheiriaid ymhlith asiantaethau partner fel mecanwaith archwilio. | Bydd asiantaethau partner yn ymwybodol o lwybr clir i ofyn am / trefnu adolygiad gan gymheiriaid fel swyddogaeth archwilio o fewn fframwaith y bwrdd. |
| | Fel rhan o'r adolygiad o'r fframwaith sicrhau ansawdd, datblygu model archwilio'r bwrdd yn rhaglen hirdymor, gan sefydlu amlder a phroses y cytunwyd arnynt ar gyfer nodi themâu archwilio. | Bydd rhaglen archwilio dreigl yn cael ei hymgorffori, a bydd archwiliadau'n cael eu cyflwyno i'r bwrdd gweithredol ar amlder rheolaidd y cytunwyd arno. |
| | Mireinio a datblygu'r ffordd y cyflwynir data i'r bwrdd gweithredol, drwy gyfuniad o ddefnyddio datblygiadau mewn technoleg, a chynnwys dadansoddiad data amlasiantaeth o fewn strwythurau ehangach y bwrdd, i lywio'r data a'r dadansoddiad a gyflwynir ar lefel y bwrdd gweithredol. | Bydd y bwrdd gweithredol yn cael dadansoddiad mwy manwl, sy'n seiliedig ar wybodaeth, mewn perthynas â data perfformiad rhanbarthol. |
| | | Bydd dadansoddi data amlasiantaeth yn rhan o agendâu'r bwrdd ar lefel is-grŵp, er mwyn hwyluso dadansoddi a myfyrio ychwanegol. |

| 3. Cyfranogiad a lleisiau'r rhai sydd â phrofiad bywyd: Cryfhau ymgysylltiad â phlant, oedolion sydd mewn perygl, a chymunedau, a sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau bywyd yn llywio ymarfer a blaenoriaethau yn uniongyrchol. | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Beth ydym am ei gyflawni?** | **Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r cam gweithredu hwn?** |
| **3.1 Newid Mwyaf Sylweddol** | Treialu a gwerthuso'r model Newid Mwyaf Sylweddol mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Penfro. | Bydd panel dethol storïau yn cael ei ymgorffori yn strwythurau presennol y bwrdd. |
| | | Bydd cyfraniadau uniongyrchol a storïau mewn perthynas ag unigolion yn y gymuned yn ymddangos o fewn agendâu, ffrydiau gwaith a busnes y bwrdd. |
| **3.2 Lleisiau plant a phobl ifanc** | Gweithredu'r model ymgysylltu â phlant y cytunwyd arno yn llawn i gynnwys cyfraniadau plant a gafwyd ar lefel leol yn y bwrdd gweithredol. | Bydd canlyniad arferion ymgysylltu â phlant lleol yn rhan o agendâu'r grwpiau gweithredol lleol. |
| | | Bydd cyfraniadau wedi'u coladu gan blant a phobl ifanc i'w gweld o fewn busnes ac agendâu'r bwrdd. |

| **4. Cryfhau ymgysylltiad â chymunedau (gan gynnwys grwpiau a sefydliadau ynysig ac anodd eu cyrraedd): Grymuso cymunedau drwy hwyluso datblygiad a hygyrchedd adnoddau a chanllawiau mewn perthynas â diogelu a llesiant.** | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Beth ydym am ei gyflawni?** | **Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r cam gweithredu hwn?** |
| **4.1 Cymunedau ynysig a defnydd cymhleth** | Nodi rhwystrau i gael mynediad at ganllawiau a chymorth diogelu, gan gynnwys dulliau o roi gwybod am bryderon, a cheisio mynd i'r afael â'r rhain drwy ddarparu canllawiau, gwybodaeth a/neu hyfforddiant. | Bydd canllawiau a gwybodaeth hygyrch ar gael i gymunedau, gyda llwybrau clir ar gyfer adrodd pryderon a cheisio cymorth. |
| **4.2 Cysgu mwy diogel** | Casglu a chyhoeddi cyfres o adnoddau a chanllawiau mewn perthynas ag arferion cysgu diogel, gan ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu'r bwrdd. | Bydd cysgu diogel yn rhan o gynllun cyfathrebu'r bwrdd. |
| | | Bydd canllawiau cysgu diogel hawdd eu cyrchu ar wefan y bwrdd. |
| **4.3 Cyfathrebu** | Sefydlu cynllun cyfathrebu rhanbarthol sy'n cynnwys rhannu canllawiau a gwybodaeth ar gyfer cymunedau ac ymarferwyr mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. | Bydd cyfathrebiadau rheolaidd yn cael eu rhannu ar draws llwyfannau cyfathrebu mewn perthynas ag amrywiaeth o feysydd thematig. |
| | | Bydd metrigau ar-lein mewn perthynas â llwyfannau cyfathrebu'r bwrdd yn dangos cynnydd mewn cyrhaeddiad mewn perthynas â chynnwys a rennir. |

## GWARIANT ARFAETHEDIG Y BWRDD I GYFLAWNI EIN HAMCANION

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau lleol:**<br>• Ceredigion 15%<br>• Powys 25%<br>• Sir Gaerfyrddin 35%<br>• Sir Benfro 25% | 60% | **Iechyd:**<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 75%<br>• Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 25% | 25% | Cyfanswm: 100% |
| **Yr heddlu**<br>• Heddlu Dyfed-Powys | 10% | **Gwasanaeth prawf:**<br>• Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 5% | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb 2025–2026** | | **Cyfraniadau'r asiantaeth 2026–2027** | |
| Costau staff a chyflogau | 239,460 | Cyngor Sir Ceredigion | 20,930 |
| | | Cyngor Sir Powys | 34,883 |
| Offer a meddalwedd technoleg gwybodaeth | 1,030 | Cyngor Sir Caerfyrddin | 48,836 |
| Costau swyddfa, gweinyddu a recriwtio | 10,750 | Cyngor Sir Penfro | 34,883 |
| Teithio, lleoliadau a chyfathrebu | 5,120 | Heddlu Dyfed-Powys | 23,255 |
| Cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a chyfieithu | 7,450 | Gwasanaeth Prawf Cymru | 11,628 |
| Comisiynu ymchwil, prosiectau a gomisiynir yn annibynnol, a darparu hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol yn allanol | 10,740 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 43,603 |
| | | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 14,534 |
| | | Arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru | 42,000 |
| **CYFANSWM** | **274,550** | **CYFANSWM** | **274,550** |

## SUT YR YDYM YN BWRIADU CYDWEITHIO AG UNIGOLION NEU GYRFF ERAILL

Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i weithio ar y cyd, ac mewn partneriaeth, â'r holl fyrddau diogelu eraill yng Nghymru drwy fod yn bresennol mewn cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y rheolwyr busnes a hwylusir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arfer da yn rheolaidd ynghylch adolygiadau diogelu unedig sengl, cydlynu themâu a chyfathrebu'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, a digwyddiadau ad hoc / pwrpasol eraill a drefnir yn allanol. Yn benodol, bydd cydweithrediad cryf yn cael ei gyflawni eleni gydag amrywiol randdeiliaid allweddol wrth i ni barhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu fframwaith dysgu a datblygu'r adolygiad diogelu unedig sengl, a hwyluso digwyddiadau hyfforddi wyneb yn wyneb, ochr yn ochr â hyrwyddo a datblygu adnoddau hyfforddi digidol ategol, a phresenoldeb a chyfraniad at sawl ffrwd waith ac is-grŵp cysylltiedig.

Rydym yn parhau i lunio'r agenda diogelu cenedlaethol a'r sgwrs, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys parhau i gefnogi datblygiad y fframwaith perfformiad ar gyfer diogelu amlasiantaeth cenedlaethol.

Mae staff sy'n gysylltiedig ag Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ochr yn ochr ag aelodau'r bwrdd, a staff ac asiantaethau sy'n cefnogi ein his-grwpiau a'n ffrydiau gwaith, yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd sawl bwrdd strategol cenedlaethol, yn ogystal â ffrydiau gwaith a grwpiau rheolaidd a phwrpasol, i gefnogi a datblygu arferion diogelu ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru, y Grŵp Adolygu Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol, a Grŵp Gwrthgaethwasiaeth Cymru. Mae llawer iawn o waith wedi'i neilltuo eleni i gefnogi diweddariad Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru, a bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn nesaf drwy weithredu'r broses wedi'i diweddaru.

## SUT YR YDYM YN RHOI CYFLE I BOBL YR EFFEITHIR ARNYNT GAN WAITH Y BWRDD I GYFRANOGI

Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025, parhaodd Bwrdd CYSUR i gomisiynu gwasanaeth eirioli annibynnol Tros Gynnal Plant i hwyluso ei Fwrdd Iau Diogelu Plant Rhanbarthol. Drwy'r model hwn, cafodd y bwrdd y pleser o ymgysylltu â nifer o bobl ifanc ar draws y rhanbarth mewn perthynas â sawl ffrwd waith. Fodd bynnag, arweiniodd newidiadau mewn trefniadau lleol ar gyfer grwpiau a phartneriaethau iau, ac esblygiad naturiol modelau ymgysylltu yn lleol ac yn rhanbarthol, at angen dilynol i ddatblygu ein model rhanbarthol ymhellach i hwyluso ymgysylltiad mwy manwl a chyson a allai gyrraedd nifer fwy o bobl ifanc.

Yn flaenorol, mae'r bwrdd, mewn cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol, wedi datblygu model newydd ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, sy'n defnyddio fforymau lleol presennol fel mecanwaith i gyrraedd grwpiau ehangach o bobl ifanc ar draws yr ardal ddaearyddol eang sy'n ffurfio'r bwrdd. Yn y modd hwn, mae'r bwrdd yn gobeithio ymgysylltu â nifer fwy o bobl ifanc sydd ag amrywiaeth o brofiadau o gymorth ac ymyrraeth amlasiantaeth, yn ogystal â chyflawni ymgysylltiad mwy cyfoethog a chyson, trwy gefnogaeth ymarferwyr lleol sy'n cefnogi ac yn ymgysylltu â grwpiau o'r fath. Mae ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn ffocws allweddol yn ein cynllun blynyddol unwaith eto eleni, ac edrychwn ymlaen at weithredu ein model ymgysylltu wedi'i adnewyddu yn y flwyddyn i ddod.

Mae panel o oroeswyr, sy'n cynnwys goroeswyr cam-drin domestig, yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn ffrydiau gwaith y bwrdd sy'n ymwneud â gwaith rhanbarthol ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae eu lleisiau a'u profiad bywyd yn cyfrannu at gyfarfodydd rhanbarthol ac yn gweithio'n rheolaidd.

Bydd cynlluniau i wrando ar leisiau goroeswyr cam-drin domestig yn parhau eleni, fel yr amlinellir yn y strategaeth VAWDASV ranbarthol (2023–2027).

Yn ystod y flwyddyn nesaf, cynhelir prosiect peilot 12 mis er mwyn cael clywed a deall lleisiau oedolion sydd mewn perygl. Mae model ymarfer y Newid Mwyaf Sylweddol yn hwyluso casglu storïau gan y rhai sydd wedi bod yn destun y broses ddiogelu, a myfyrio drostynt. Bydd strwythurau presennol y bwrdd yn cael eu defnyddio, gan gynnwys y grwpiau gweithredol lleol a'r byrddau gweithredol, i glywed profiadau'r rhai sydd â phrofiad personol, a bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ymdrechu i ystyried sut y gall y profiadau hyn lunio gwaith y bwrdd, blaenoriaethau strategol ac, yn y pen draw, arferion diogelu amlasiantaethol wrth symud ymlaen.

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ewch i'n gwefan:

www.cysur.cymru

## SUT I ADRODD AM BRYDERON

Os ydych yn amau bod plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn **yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999** a siaradwch â'r **heddlu.**

Os hoffech chi adrodd ar ddigwyddiad **nad yw'n fater brys,** neu os oes gennych broblem neu ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio **101** i gyrraedd y gwasanaeth 24 awr ar gyfer materion nad ydynt yn rhai brys.

Os ydych chi'n pryderu am ddiogelwch neu lesiant unigolyn, mae gennych chi ddyletswydd i roi gwybod amdano ar unwaith. Mae gwybodaeth gyswllt gyfredol ar gyfer pob sir o fewn y bwrdd ar gael ar ein gwefan.

Am wybodaeth gyswllt i roi gwybod am bryder ynghylch diogelwch neu lesiant plentyn, ewch i'r dudalen hon: https://cysur.cymru/cysylltiadau-a-dolenni-defnyddiol/rhoi-gwybod-am-bryderon-plant/.

Am wybodaeth gyswllt i roi gwybod am bryder ynghylch diogelwch neu lesiant oedolyn, ewch i'r dudalen hon: https://cysur.cymru/cysylltiadau-a-dolenni-defnyddiol/rhoi-gwybod-am-bryderon-oedolion/.